

Adroddiad gan Merched y Wawr

- Pa effeithiau y mae costau byw cynyddol wedi'u cael ar eich sefydliad a'ch sector hyd yn hyn?
 1. Fel elusen rydym eisoes yn gweld nifer o effeithiau negyddol – costau tanwydd yn rhwystro pobl rhag mynychu digwyddiadau a chostau uwch o ran staff a swyddogion yn teithio i fynychu gweithgareddau.
 2. Mae costau trydan, dwr, nwy, treth cyngor, bwyd, papur, nwyddau i gyd yn codi ond hynny ddim yn cael ei adlewyrchu yng nghodiadau cyflog i staff ac yn eu gwneud yn fwy anodd i aelodau fedru fforddio berthyn i elusennau hamdden a gwario arian ar bleserau bywyd e.e. bwyta allan, mynychu gweithgareddau cymdeithasol.
 3. Dros y penwythnos fe wnaethom gynnal Penwythnos Preswyl – fel arfer mae tua 300 yn aros eleni 171 oedd wedi dod, ac yr oedd amryw wedi dweud mae gofidio am gostau y gaeaf oedd wedi eu rhwystro rhag mynychu fel preswylwyr. Roedd hyn yn wir am amryw o bensynwyr sydd wedi colli hyder ôl covid, sy'n unig ac yn pryderu yn fawr am gynhesu eu cartrefi a medru fforddio prynu bwyd i'w cynnal dros y misoedd nesaf.
 4. Rydym yn trefnu triapiau fel rhan o'r gynhadledd ac o gymharu gyda 3 mlynedd yn ôl roedd cost yn 2019 yn £5 y pen, eleni yr oedd yn £11 y pen a hynny ar ôl ei chael yn anodd iawn i gael cwmni oedd efo gyrwyr yn medru gweithio ar ddydd Sadwrn a chost tanwydd.
- Pa effeithiau ydych chi'n rhagweld y bydd costau cynyddol yn eu cael ar eich sefydliad a'ch sector? I ba raddau y bydd yr effeithiau hyn yn anghildroadwy (e.e. lleoliadau'n cau, yn hytrach nag yn gyfyngiad dros dro yn unig ar weithgareddau)?
 1. Rydym yn rhedeg Canolfan Gymunedol yn Aberystwyth ac yn bryderus iawn a fyddwn yn medru fforddio ei chadw yn agored oherwydd y costau cynyddol o wresogi hen adeilad dros fisoedd y gaeaf. Mae'r grwpiau sy'n eu defnyddio yn cynnwys Urdd Sant Ioan, Grŵp Dyslecsia, Cynghorwyr sy'n cyfarfod pobl sydd wedi bod yn ddibynnol ar gyffuriau, grŵp loga llesol a'r Gwasanaeth Iechyd i enwi dim ond rhai.
 2. Mae cost y we fyd eang, cyfleustodau, bwyd a diod a chostau yswiriant a gweithwyr megis trydanwyr i gyd wedi codi yn sylweddol hefyd sy'n ychwanegu at gostau cynnal a chadw adeilad cymunedol
- Pa ymyriadau yr hoffech eu gweld gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU?
 1. Mae wir angen cymorth ar adeiladau cymunedol elusennol i gynnal a chadw ein cymuned ac mae angen presgripsiwn llesiant

i bobl hyn fedru fforddio mynychu gweithgareddau gan elusennau megis Merched y Wawr.

2. Mae angen ystyried unigrwydd cymdeithasol a hefyd costau uwch i gynnal gweithgareddau mewn ardaloedd gwledig lle nad oes is-adeiladedd o drafnidiaeth cyhoeddus a chadw costau llogi adeiladau cymunedol yn fychan er mwyn sicrhau parhad i weithgarwch cymunedol.
 3. Mae wir angen ymyrraeth gan Lywodraeth Prydain a Chymru ar yr hyn a wnaed gan fanc HSBC yn ystod y flwyddyn sef codi £5 y mis o gostau ar bob cyfrif elusen sef £60 y flwyddyn, ynghyd a chodi am fynd a arian i fewn i'r banc neu eu dynnu allan – mae hyn yn cael effaith andwyol ar ein grwpiau cymunedol. Ac mae'r banciau bron a'i gwneud yn amhosibl i agor cyfrif newydd, mae hyn yn peri gofid enfawr i elusennau fel ein un ni ac yr ydym yn barod wedi colli amryw o ganghennau a chlybiau oherwydd hyn.
- I ba raddau y mae'r effeithiau a ddisgrifiwyd yn wahanol ar bobl â nodweddion gwarchoddedig a phobl o statws economaidd-gymdeithasol is?
 1. Mae hyn yn effeithio ar bob un unigolyn, mae pawb yn pryderi, ond mae y rhai sy'n hyn, yn fregus neu yn unig yn amlwg yn dioddef mwy gan nad oes modd iddynt rannu eu pryderon.
 2. Mae pobl yn ei chael yn anodd i drafod pryderon gydag eraill ac mae pobl hyn yn cael hi yn anoddach fyth i ddefnyddio technoleg – felly yn methu a chael gostyngiadau sy'n cael eu cynnig am brynu ar y we ac yn sicr yn methu a chwilota am y fargen orau trwy fynd ar y rhynggrwyd.
 3. Un elfen arall sy'n pryderi nifer fawr o bobl hyn a rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig ydyw diffyg banciau a lle i droi i drafod eu anghenion bancio – mae yn gywilyddus i feddwl bod pobl o Bermo yn Gwynedd yn gorfod teithio i Aberystwyth i gael gwasanaeth wyneb yn wyneb mewn banc.
 4. Hefyd rydym yn bryderus iawn am y diffyg cefnogaeth i adeiladau cymunedol – mae yn amhosibl mewn rhai cymunedau i gynnal cyfarfod gan nad oes adeilad pwrpasol e.e. Ysgol gynradd wedi cau, capel ag eglwys a'i ystafelloedd wedi cau, tai tafarndai a gwestai wedi cau, hen neuadd y plwyf wedi cau a chostau yswiriant, iechyd a diogelwch a cynnal a chadw a diffyg aelodau i bwyllogorau adeiladau cymunedol yn ei gwneud yn haws i gau na chadw yn agored